**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Y Bartneriaeth Awyr Agored**
Cofnodion

***Dyddiad y Cyfarfod:*** *Medi* 25ain 2025 – 10:00am – 10.45am via Zoom

***Yn bresennol:***

| | |
|---|---|
| **Ymddiriedolwyr:** | Paul Airey (Cadeirydd), Paul Frost (Llywodraethu), Joan Edwards (Cyllid), Stuart Wallace (Datblygu), Faye Johnson (Iechyd a Lles). |
| **Tîm staff** | Tracey Evans (Prif Weithredwr & Ysgrifennydd y Cwmni), Mark Jones (Rheolwr Rhaglen), Elin Humphreys, Sioned Johnstone, Leila Connolly, Brett Mahoney, Bethan Logan, Victoria Kelly, Vincent McWhirter, Ailish Roberts, Stuart Jones, Tomos Lloyd, Gary Donaldson, Sarah Ramsey, Sam Allum. |
| **Aelodau rhanddeiliaid** | Bu cyfanswm o 32 o randdeiliaid yn bresennol yn cynrychioli pob maes o weithredu |

*1. Croeso*

Cyflwynodd MJ y cyfleusterau cyfieithu sydd ar gael i bawb.

Croesawodd PA bawb i'r cyfarfod, cyflwynodd yr holl Ymddiriedolwyr a oedd yn bresennol a diolchodd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr am eu holl gefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf.

Roedd copïau o'r holl adroddiadau a'r gwaith papur perthnasol ar gael cyn y cyfarfod ar wefan y Bartneriaeth Awyr Agored https://partneriaeth-awyr-agored.co.uk/llyfrgell-dogfennau-2 .

*2. Ymddiheuriadau*

Cafwyd ymddiheuriadau gan yr ymddiriedolwyr canlynol - Jo Owen (Cynhwysiant), Margaret Hollings (Masnach), Leah Watkins (AD).

*3. Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol diwethaf*

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod gwir a chywir.

***4. Materion yn codi***

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

## *5. Adroddiad y cadeirydd*

5.1 Darllenodd PA yr adroddiad ysgrifenedig a thynnu sylw at rai o'r cyflawniadau allweddol dros y flwyddyn a nodi meysydd gwaith i'w blaenoriaethu ar gyfer y flwyddyn i ddod (adroddiad y Cadeirydd https://partneriaeth-awyr-agored.co.uk/ccb-2024 ). Rhannwyd sawl dolen i'r adnoddau a'r fideos y cyfeirir atynt yn yr adroddiad yn y blwch sgwrsio. Diolchodd PA i gyllidwyr, partneriaid a rhanddeiliaid am eu cefnogaeth barhaus ac i'r Prif Weithredwr a'r holl dîm staff am eu gwaith rhagorol eleni.

## *6. Ethol Cyfarwyddwyr*

6.1 Ethol Cyfarwyddwyr- Fe wnaeth PA sefyll i lawr ar ôl y tymor o dair blynedd a nododd ei fod yn fodlon ailsefyll am dair blynedd arall. Cynigiodd SW ac eiliodd PF y cynnig. Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau. Roedd pawb o blaid ailbenodi PA.

6.2 Fe wnaeth JO sefyll i lawr ar ôl ei thymor o dair blynedd a nododd PA ei bod hi'n fodlon ailsefyll am dymor arall o dair blynedd. Cynigiodd PF ac eiliodd JE y cynnig. Ni fu unrhyw wrthwynebiadau. Roedd pawb o blaid ailbenodi JO.

6.3 Adroddodd PA y bydd PF yn sefyll i lawr yn y CCB nesaf a bod y Bwrdd yn chwilio i benodi aelod yn y misoedd nesaf sydd â dealltwriaeth a phrofiad mewn llywodraethu a pholisïau. Os oes unrhywun â diddordeb yn y rôl cysylltwch â'r Prif Weithredwr am fwy o wybodaeth

6.4 Ethol Cadeirydd – Safodd PA i lawr fel Cadeirydd. Nododd PA fod y Bwrdd wedi enwebu SW sydd ar hyn o bryd yn is-gadeirydd. Cynigiodd PF SW yn ffurfiol ac eiliodd JE y cynnig.

**Gweithred**

Etholwyd SW yn unfrydol fel Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr.

## 7. Adroddiad ariannol a chymeradwyo'r cyfrifon blynyddol

7.1 Rhoddodd JE grynodeb o'r cyfrifon blynyddol.

7.2 Cymeradwywyd y Cyfrifon.

7.3 Diolchodd PA i JE ac Elin Humphreys, Swyddog Cyllid yr Elusen am eu holl waith dros y flwyddyn

## *8.* Penodi a phennu tâl yr Archwilwyr

8.1 Mae Williams Denton, Parc Menai, wedi'u penodi'n archwilwyr.

## *9. Unrhyw fater arall*

9.1 Diolchodd SW, ar ran y Bwrdd, i PA am ei ymroddiad, ei ymrwymiad a'i arweinyddiaeth wych fel cadeirydd. Diolchodd TE, ar ran yr holl dîm staff a rhanddeiliaid, i PA am ei holl gefnogaeth ac arweinyddiaeth fel Cadeirydd a nododd ei bod wedi bod yn gymaint o bleser gweithio ochr yn ochr ag ef fel Cadeirydd. Diolchodd TE i SW a'r Bwrdd Ymddiriedolwyr am eu holl gefnogaeth dros y deuddeg mis diwethaf.

## *10. Dyddiad y cyfarfod nesaf*

10.1 Medi 2026 (dyddiad i’w gadarnhau)

Caeodd PA y cyfarfod yn ffurfiol trwy ddiolch i bawb a fynychodd. Daeth y cyfarfod i ben am 10.45am.